**Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales**
**Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Children, Young People and Education Committee**
**Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg | Inquiry into Welsh in Education Strategic Plans**

WESP 39
**Ymateb gan : Pentan – Clwstwr Ysgolion Cymraeg Nedd a Phort Talbot**
**Response from : WESP 39 Pentan – Neath Port Talbot Welsh-medium School Cluster**

| |
|---|
| **Cwestiwn 1** – Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu at y deilliannau a'r targedau a nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru? |
| Yn sicr<br>Maent yn gosod cyfeiriad a thargedau pendant i ddatblygiad addysg Gymraeg.<br><br>Lle mae awdurdodau addysg wedi bod yn strategol, gwelwyd twf yn y niferoedd o ddisgyblion. Serch hynny, nid ydym o'r farn fod nifer o awdurdodau wedi rhoi blaenoriaeth briodol i'r targedau. |
| Os ydych o'r farn nad yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu ddigon, sut y gellir datrys hyn? |
| Angen i awdurdodau fod yn fwy atebol os nad ydynt yn gallu arddangos yn glir gynllunio ar gyfer bwrw'r targedau.<br><br>Dylid fod monitro llawer manylach gan LCC. |
| **Cwestiwn 2** – Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau'r newidiadau angenrheidiol mewn awdurdodau lleol, neu a allant wneud hynny (er enghraifft, sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer unrhyw gynnydd yn y galw am addysg Gymraeg)? |
| Eto, mewn rhai awdurdodau addysg, mae wedi arwain at gynllunio priodol ac sydd wedi arwain at gynnydd clir a mesuradwy yn y ddarpariaeth.<br>Yn yr un modd, lle nad yw AALl wedi blaenoriaethu a chynllunio'n briodol, nid yw'r un cynnydd yn weladwy. |

| |
|---|
| Os ydych o’r farn nad yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau newidiadau, neu na allant wneud hynny, sut y gellir datrys hyn? |
| Os gellir cynyddu'r atebolrwydd a'r monitro o'r cynlluniau, nid oes rheswm na all arwain at gyrraedd y targedau.<br><br>Mae natur llwyddiant Strategaeth Cymraeg mewn addysg yn aml iawn yn dibynnu ar ymdrechion ac ymroddiad gwleidyddol (ar lefel leol / ranbarthol) ac mae llwyddiant NEU’R methiant hynny yn cael eu hamlygu wrth edrych ar ddata a chanlyniadau ffrwyth y gwaith yma (mae rhai Awdurdodau yn gwneud yn wych ac eraill yn gwella fawr ddim).<br><br>Wrth edrych ar dwf addysg Gymraeg fel arfer fe welir tystiolaeth ôl y gwaith caled NEU’R difaterwch yma yn glir. |
| **Cwestiwn 3** – Beth yw eich barn ar y trefniadau ar gyfer pennu targedau; monitro; adolygu; cyflwyno adroddiadau; cymeradwyo a chydymffurfio â gofynion Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (a rôl awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn y cyswllt hwn)? |
| Mae'r targedau yn ddigon clir yn y ddogfen.<br>Y prif wendid yw nad oes unrhyw atebolrwydd pan na fydd y targedau'n cael eu methu.<br>Nid yw'r berthynas rhwng arian WEG / WESP a llwyddiant y cynlluniau strategol yn ddigon clir a thryloyw. |
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? |
| Sicrhau fod perthynas fwy agos rhwng llwyddiant y strategaethau a'r ariannu.<br>Monitro mwy manwl ac agos o lwyddiannau'r strategaethau.<br>Codi ymwybyddiaeth y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar lefel wleidyddol. |
| **Cwestiwn 4** – Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn amlygu rhyngweithio effeithiol rhwng strategaeth addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth a pholisïau perthnasol eraill*?<br>(*er enghraifft, polisi cludiant ysgolion; rhaglen Ysgolion yr Unfed |

| |
|---|
| Ganrif ar Hugain; y datganiad polisi – Iaith fyw:iaith byw; Dechrau'n Deg; polisi cynllunio)? |
| Mae amrywiaeth fawr rhwng awdurdodau addysg ac ar draws sectorau yn y maes yma.<br>Angen edrych ar gostau cludiant yn enwedig i blant Meithrin (anstatudol) mewn ardaloedd difreintiedig. Nifer fawr o ysgolion Cymraeg yn colli plant i ysgolion lleol oherwydd costau teithio yn y blynyddoedd cyntaf. |
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? |
| Cyfeiriad clir eto gan LlCC i sicrhau fod yr holl AALl, Consortia a sectorau yn gweithio yn yr un modd.<br>Angen edrych ar unedau meithrin mewn ysgolion lleol (ysgolion cychwynnol). |
| **Cwestiwn 5** – Yn eich barn chi, a yw canlyniadau'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau canlyniadau teg i bob disgybl, gan gynnwys er enghraifft, disgyblion cynradd / uwchradd; plant o gartrefi incwm isel? |
| Teithio er mwyn sicrhau hygyrchedd i addysg Gymraeg yn gallu effeithio ar a lleihau twf. Felly hefyd darpariaeth leol.<br><br>Mae yna amrywiaeth mawr yn y niferoedd o safleoedd Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg?<br><br>Rhai awdurdodau bellach yn ystyried / ymgynghori ar godi tâl teithio addysg ôl 16 yn gosod rhwystrau i ddisgyblion yn y broses o drosglwyddo yn 11. Mae'n codi cwestiynau mawr. |
| Os ydych o'r farn nad yw canlyniadau'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau canlyniadau teg, sut y gellir datrys hyn? |
| Ymchwil manwl i Ddyraniad arian Dechrau'n Deg i leoliadau Cymraeg<br>Effaith teithio a chost teithio i dwf addysg Gymraeg (cynradd, uwchradd ac ôl 16) |

| |
|---|
| **Cwestiwn 6** – Os byddai'n rhaid ichi wneud un argymhelliad i Lywodraeth Cymru o'r holl bwyntiau rydych wedi'u nodi, beth fyddai'r argymhelliad hwnnw? |
| Gwerthusiadau mwy manwl i gynlluniau strategol AALl<br>Monitro mwy manwl (yn flynyddol?)<br>Sicrhau fod y berthynas rhwng twf ysgolion Cymraeg a'u hariannu'n gliriach. |
| **Cwestiwn 7** – A oes gennych unrhyw sylwadau neu faterion eraill yr hoffech eu codi na soniwyd amdanynt yn y cwestiynau penodol? |
| Rydym yn gefnogol iawn i'r strategaeth a gwelwn le pwysig iawn iddi o fewn addysg yng Nghymru a datblygiad Addysg Gymraeg.<br><br>Anogwn chwi i sicrhau fwy o bwyslais iddi o fewn cynllunio strategol awdurdodau addysg / gonsortia.<br><br>Mae'r cwestiwn yn codi faint o ddarpariaeth Cymraeg sydd yn ein Hawdurdodau i ddisgyblion ADY. Diddorol fyddai gweld faint o gyllid sydd yn cael ei wario gyda'r Awdurdodau gwahanol ar Ysgolion Penodedig ADY ac Unedau ADY Saesneg ei hiaith o'i gymharu ar cymorth sydd i ddisgyblion ADY yn y sector Gymraeg? Faint o ddisgyblion a ddechreuodd, ac oedd yn dymuno, cael addysg Gymraeg ar ddechrau eu gyrfa ysgol sydd wedi symud i unedau Saesneg ei hiaith oherwydd y diffyg darpariaeth o fewn y sector Gymraeg i'w anghenion nhw? |